



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

POLISI CONTRACTAU CYFNOD PENODOL

Adol.	Dyddiad	Pwrpas cyhoeddi/Disgrifiad o'r newid		Dyddiad adolygu
				2018
Swyddog Polisi		Uwch Swyddog Cyfrifol	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Cyfarwyddwr AD		Uwch Swyddog AD		

Pwrpas y Polisi

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau parhad cyflogaeth i'w staff ac i ddefnyddio contractau cyfnod penodol yn unig mewn amgylchiadau penodedig y cytunwyd arnynt â'r undebau llafur cydnabyddedig.

Lle defnyddir contractau cyfnod penodol, bydd y Brifysgol yn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol, na chaiff y staff hynny eu trin yn llai ffafriol na staff parhaol ac, yn unol â'r Polisi ar Adleoli, eu bod yn cael eu hysbysu am leoedd gwag ac yn derbyn ystyriaeth flaenorol ar gyfer swyddi gwag addas.

Pwrpas y Polisi hwn a'r Drefn gysylltiedig yw:

- Nodi'r amgylchiadau lle gellir defnyddio contractau cyfnod penodol
- Nodi sut y caiff contractau cyfnod penodol eu rheoli
- Nodi materion penodol yn ymwneud â staff ymchwil ar gontract a staff a delir fesul awr
- Lleihau'r defnydd a wneir o gontractau cyfnod penodol yn y Brifysgol
- Darparu ar gyfer trosglwyddo staff cyfnod penodol i gontractau parhaol
- Nodi'r hyn sydd angen ei wneud pan derfynir contract cyfnod penodol.

Cwmpas

Bydd y polisi hwn yn gymwys i holl aelodau staff y Brifysgol h.y. Staff Cefnogi ac Academaidd, Rheoli a Phroffesiynol. Ni fydd yn gymwys i aelodau staff is-gwmnïau'r Brifysgol.

Cyfrifoldeb

Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, sy'n adrodd i'r Grŵp Tasg Adnoddau Dynol a'r Pwyllgor Gweithredu yw gweithredu, monitro ac adolygu'r polisi hwn ar draws y brifysgol.

Deoniaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion, Penaethiaid Adrannau a'r holl rai hynny sy'n rheoli llinell sy'n gyfrifol am y Polisi o fewn y Colegau a'r Adrannau Gwasanaethau Canolog.

Egwyddorion Craidd

1. Ni fydd y Brifysgol yn gweithredu mewn unrhyw fodd sy'n groes i'r Rheoliadau Gweithwyr Cyfnod Penodol (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2002, na chyfarwyddyd y Cydbwyllgor Trafod ar gyfer Staff Addysg Uwch (JNCHES) ar Gyflogaeth Cyfnod Penodol ac Achlysurol 2002.
2. Bydd y Brifysgol yn osgoi defnyddio contractau cyfnod penodol yn olynol a byddant yn trosglwyddo staff i gontractau parhaol unwaith y byddant wedi

cwblhau pedair blynedd o wasanaeth, neu'n gynharach os yw'n briodol, oni bai bod cyfiawnhad gwrthrychol.

3. Defnyddir contractau cyfnod penodol yn unig lle gall y Brifysgol ddangos angen busnes gwirioneddol nas gorbwysir gan yr anfantais a achosir i'r aelod staff drwy aros ar gontract cyfnod penodol.
4. Adlewyrchir cydraddoldeb cyfle ym mhob agwedd ar gyflogaeth, yn cynnwys wrth bennu contractau cyfnod penodol ac wrth eu trawsnewid yn gontractau parhaol.

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod staff cyfnod penodol:

5. Yn cael telerau ac amodau cyflogaeth yr un fath â chydweithwyr ar gontractau parhaol cymharol, yn cynnwys cyflog, darpariaethau absenoldeb a phensiynau
6. Yn cael yr un amgylchedd gweithio addas ag aelodau staff parhaol
7. Yn cael yr un cyfle â staff parhaol i fanteisio ar wasanaethau i gynorthwyo eu gyrfa megis datblygu staff, hyfforddiant, Adolygiad Datblygu Perfformiad a chyngor ar yrfaoedd
8. Yn derbyn gwybodaeth am swyddi parhaol yn y brifysgol a'r cyfle i ymgeisio amdanynt
9. Yn cael defnyddio cyfleusterau'r brifysgol, megis llyfrgelloedd, gwasanaethau rhyngrwyd, parcio etc.
10. A'r hawl i gymryd rhan yn nhrefn lywodraethu a phwyllgorau'r brifysgol
11. Yn cael adolygu eu contractau'n rheolaidd i ystyried a ellir parhau i gyfiawnhau defnyddio contract cyfnod penodol ar sail wrthrychol fel yr amlinellir ym mharagraff 3 'Egwyddorion Craidd' uchod a pharagraff 3.0 yn y Drefn gysylltiedig.
12. O wneud cais, gallant dderbyn datganiad ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod yn egluro unrhyw wahaniaethau rhwng eu trefniadau cyflogaeth hwy â rhai staff parhaol cymharol.

Dogfennau Ategol

Polisi Cysylltiedig Contract Cyfnod Penodol

Deddfwriaeth Berthnasol (yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig iddynt)

- Rheoliadau Gweithwyr Tymor Penodol (Atal Triniaeth Lai Ffatriol) 2002
- Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Cymru 2011
- Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
- Deddf yr Iaith Gymraeg (1993) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Deddf Diogelu Data 1998

Polisiau a Threfnau cysylltiedig Prifysgol Bangor (Yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig iddynt)

- Polisi Recriwtio a Dewis
- Polisi ar Adleoli
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Adolygiad

Adolygir y polisi hwn ar y cyd bob tair blynedd, neu'n dilyn newid i ddeddfwriaeth berthnasol. Caiff yr amgylchiadau lle gall contract cyfnod penodol gael ei gyfiawnhau'n wrthrychol (Egwyddorion Craidd 3 uchod a pharagraff 3.0 yn y Polisi Cysylltiedig) hefyd eu hadolygu yng ngoleuni datblygiadau mewn cyfraith achos ac ystyriaethau cyfreithiol.